

20 SYNIAD SYML I'CH HELPU CHI I

DDATHLU GWIRFODDOLWYR

Mae angen cydnabod gwirfoddolwyr ac mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut mae hyn yn cael ei wneud yn eich clwb. Does dim un ateb, felly rydym wedi darparu detholiad o syniadau i chi fynd yn ôl i'ch clwb. Gobeithio y bydd y syniadau hyn yn eich helpu chi i benderfynu sut byddwch yn dathlu ac yn cydnabod y gwirfoddolwyr yn eich clwb.

Cofiwch, does dim rhaid i gydnabyddiaeth fod yn gostus. Mae llawer o enghreifftiau o sut gallwch chi gydnabod a diolch i wirfoddolwyr heb orfod dod o hyd i arian ychwanegol na neilltuo arian o gyfrif y clwb.



1.

Edrychwch ar ffi aelodaeth is ar gyfer y gwirfoddolwyr hynny sydd â phlentyn / plant yn eu gofal o fewn eich clwb.

2.

Os ydych chi'n rheoli eich maes parcio eich hun, beth am gael lle parcio pwrpasol ar gyfer eich gwirfoddolwyr fel eu bod yn gallu parcio'n hwylus cyn hyfforddiant a gemau.

3.

Gweithiwch gyda'ch noddwyr presennol i weld a oes cyfleoedd i gynnig gostyngiadau unigryw i'ch gwirfoddolwyr sy'n wahanol i'r rhai a gynnigir i holl aelodau'r clwb.

4.

Tynnwch lun grŵp o'ch gwirfoddolwyr ar ddechrau neu ddiwedd pob tymor. Gall ymddangos fel tasg anodd iawn - cael pawb at ei gilydd ar yr un pryd - ond meddylwch am ddigwyddiadau lle bydd pawb mewn un lle, er enghraifft, sesiwn gynefino i wirfoddolwyr neu ŵyl haf. Beth bynnag yw'r digwyddiad, ceisiwch dynnu llun tîm y gall pawb ei drysori am flynyddoedd i ddod. Os yw'n rhy anodd cael pawb at ei gilydd, ceisiwch dynnu lluniau'r gwirfoddolwyr wrth eu gwaith drwy gydol y tymor. Bydd hyn yn eich galluogi i greu albwm a fydd, yn ogystal â bod yn gyfle i wirfoddolwyr ail-fyw eu hatgofion o wirfoddoli gyda'ch clwb, yn gronfa hefyd o luniau gwych i'w defnyddio ar eich gwefan neu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol.



5.

Gwnewch i wirfoddolwyr deimlo'n rhan o'r darlun ehangach. Gallai hyn fod drwy eu cadw mewn cysylltiad â gohebiaeth y clwb neu eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Drwy gysylltu eich gwirfoddolwyr â gweithgarwch y clwb, efallai y gwelwch fod syniadau newydd yn cael eu rhannu gyda chi, neu fod pobl yn camu ymlaen i roi help llaw mewn gwahanol ffyrdd.

Cofiwch beidio â'u gorlethu â gohebiaeth a gwnewch yn siŵr bod yr hyn rydych yn ei rannu â nhw yn berthnasol, yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth.

6.

Rhowch git clwb i wirfoddolwyr. Does dim byd yn fwy cynhwysol na gwisgo'r un cit clwb a themlo'n rhan o'r teulu. Nid yn unig y bydd yn gwneud yn siŵr bod pawb yn edrych y rhan, ond hefyd gall helpu gwirfoddolwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn berthnasol i bob gwirfoddolwr, nid dim ond yr hyfforddwyr, y rheolwyr neu gynorthwywyr tîm.

7.

Mae pawb yn hoffi cael pethau am ddim felly beth am roi cynnig ar rannu nwyddau tymhorol fel anrhegion. Gallai fod yn botel ddŵr yn yr haf neu fenig yn y gaeaf. Bydd gweithred fach fel yma'n gwneud i'ch gwirfoddolwyr deimlo eu bod yn cael gofal, yn ogystal â hyrwyddo'r clwb a chynhyrchu rhywfaint o werthiant nwyddau ychwanegol hefyd!





MAE ANGEN CYDNABOD

GWIRFODDOLWYR



8.

Peidiwch ag aros am gynlluniau gwobrau blynyddol i gydnabod eich gwirfoddolwyr. Efallai y byddwch eisiau trefnu eich menter 'Gwirfoddolwr y Mis' eich hun neu ar gyfer clybiau llai, 'Gwirfoddolwr y Tymor'. Cofiwch, mae cydnabyddiaeth reolaidd yn allweddol!

9.

Byddwch yn feiddgar a chynnal eich digwyddiad cydnabod gwirfoddolwyr eich hun. Gallai hyn fod yn 'Wythnos Gwirfoddolwyr' y clybiau eu hunain neu'n 'Ddiwrnod Gwneud Gwahaniaeth'. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar gael amser penodol lle bydd y clwb yn ymrwmo i gydnabod a dathlu ei wirfoddolwyr. Fodd bynnag, ni ddylai'r digwyddiadau hyn ddisodli cydnabyddiaeth reolaidd, dylent ychwanegu at y gydnabyddiaeth yn ystod cyfnod penodol.

10.

Mae digwyddiadau cymdeithasol yn ffordd wych o gasglu pawb at ei gilydd a diolch iddynt am bopeth maent yn ei wneud. Mae hefyd yn bwysig cofio y gallai rhai o'ch gwirfoddolwyr fod wedi cymryd rhan i gwrdd â phobl newydd, felly gall digwyddiadau fel y rhain eich helpu i gefnogi anghenion eich gwirfoddolwyr. Wrth gwrs, gall fod yn heriol dod â phawb at ei gilydd ond peidiwch byth â diystyru pŵer te neu goffi am ddim.

**11.**

Synnwch eich gwirfoddolwyr. Pan fydd gwirfoddolwr yn cofrestru gyda chi, rydych yn debygol o gofnodi ei ddyddiad geni. Gallai hyn eich galluogi i ddangos eich gwerthfawrogiad ar ei ben-blwydd, drwy roi cerdyn iddo naill ai'n bersonol neu ei anfon drwy'r post. Yn well byth, os yw eich clwb yn anelu at fod yn fwy ecogyfeillgar, efallai y byddwch eisiau anfon e-gerdyn.




12.

Nid oes raid i gydnabyddiaeth fod ar ffurf gorfforol bob amser; gall fod mewn ffyrdd eraill fel ymgysylltu ystyrion. Gallai hyn fod drwy ddarganfod mwy amdany'n nhw, eu teulu, beth maen nhw'n ei wneud fel swydd ac ati. Po fwyaf o amser y byddwch chi'n ei gymryd i ddod i adnabod eich gwirfoddolwyr a'u deall, y mwyaf y byddan nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hefyd yn dangos bod y clwb yn deall bod gan bawb flaenoriaethau a diddordebau eraill y tu hwnt i bêl droed. Bydd rhoi amser i ddeall y bobl o'ch cwmpas a'ch clwb yn allweddol.

13.

Peidiwch byth â diystyru pŵer gwrando. Unwaith eto, nid oes rhaid i gydnabyddiaeth fod yn gyfnewidiad anrheg neu ddigwyddiad wedi'i deilwra; gall fod yn ddefnydd o sgiliau meddal fel gwrando. Drwy wrando ar eich gwirfoddolwyr, boed yn uniongyrchol am eu rôl yn y clwb neu amdanynt y tu hwnt i'r clwb, bydd cymryd amser i wrando arnynt yn dangos eich bod yn malio.

**14.**

Ewch ati i gydnabod eich gwirfoddolwyr ar eich gwefan (os oes gennych chi un) neu sianeli cyfryngau cymdeithasol. Tynnwch sylw arbennig atynt. Tynnwch sylw at yr hyn maent yn ei wneud yn unigol ac ar y cyd. Dangoswch eu gwaith caled a'r effaith maent yn ei chael.

15.

Diolchwch yn bersonol i wirfoddolwyr. Meddyliwch ynghylch i bwy rydych chi eisiau diolch a beth yw eu hoff ddull cyfathrebu. Gallai fod drwy lythyr, e-bost, galwad ffôn syml neu gallai fod ar gyfryngau cymdeithasol. Cofiwch, cyfeiriwch at enw'r unigolyn, ei rôl yn y clwb ac efallai hyd yn oed ddyfyniad gan rywun y mae wedi'i gefnogi, fel plentyn, rhiant neu wirfoddolwr arall.

16.

Hyfforddiant a datblygiad. Er bod hon yn elfen unigol yn ein hecosystem wirfoddoli, mae'n bwysig cofio bod hyfforddiant a datblygiad yn barhaus ac mae cefnogi gwirfoddolwr i edrych ar gyfle hyfforddi neu ddatblygu yn ffordd wych o ddangos eich gwerthfawrogiad. Mae'n dangos yn gadarnhaol eich bod yn gwerthfawrogi eu dyheadau ar gyfer twf a datblygiad personol. Os yw hynny, fel sgil-gynnyrch, yn golygu bod eich clwb yn tyfu o ran gwybodaeth, adnoddau a dealltwriaeth, pam na fydddech chi'n ystyried cydnabod eich gwirfoddolwyr fel hyn.



17.

Edrychwch ar sut gallai eich clwb gael ei gynllun cydnabod ei hun, gan gydnabod gwirfoddolwyr am gyrraedd cerrig milltir penodol o fewn eich clwb. Ceisiwch beidio ag aros tan wobrau rhanbarthol neu genedlaethol oherwydd efallai y byddwch yn colli'r cyfle. Mae adroddiad gan LOVS 2019 yn awgrymu bod gwirfoddolwr mewn chwaraeon yn aros am gyfartaledd o 5.9 mlynedd¹. Efallai mai dim ond am 'gyfnod byr' o amser fydd eich gwirfoddolwyr gyda chi, felly mae gallu eu gwobrwyo nhw o fewn y cyfnod hwnnw yn allweddol. Efallai y bydd y canllaw isod yn eich helpu i benderfynu ar y cerrig milltir o ran hyd y gefnogaeth.

0-1 MLYNEDD

Rhowch amser i ddiolch i'r gwirfoddolwyr newydd am gymryd rhan a rhoi help llaw.

Awgrym am wobwr – cydnabyddiaeth ar ffurf neges ar gyfryngau cymdeithasol/ gwefan.



3-4 BLYNEDD

Bydd llawer o'ch gwirfoddolwyr wedi gwneud cysylltiadau ag eraill drwy gydol eu hamser yn eich clwb. Sut gall eich clwb gydnabod hyn a chael pawb at ei gilydd i ddweud diolch yn fawr?

Awgrym o wobwr – digwyddiad cymdeithasol i ddweud 'diolch'.



Os yw gwirfoddolwyr yn dymuno parhau y tu hwnt i'r amser hwn mae hynny'n wych. Sut allwch chi gynnal eu diddordeb a'u cyffro i barhau i helpu.



1-2 FLYNEDD

Ceisiwch ddeall sut gallwch chi eu helpu gyda'u rôl. Oes cyfleoedd hyfforddi neu ddatblygu priodol y gallech eu gwobrwyo â nhw?

Awgrym am wobwr – cwrs addysgu Hyfforddwyr yr FA/ cwrs arall.



5-6 BLYNEDD

Rhowch amser i gydnabod cyflawniadau personol a chyfraniadau cadarnhaol at nodau ac uchelgeisiau'r clwb.

Awgrym am wobwr – cydnabyddiaeth arbennig, bersonol.



Canllaw yn unig yw hwn, ac ni ddylech stopio ar hyn os yw gwirfoddolwr yn cefnogi'r clwb am fwy na 6 blynedd. Dylai hyn eich helpu i nodi beth / sut gallwch eu cadw yn cymryd rhan a rhoi'r gydnabyddiaeth y mae ei gwir angen yn ystod rhai cerrig milltir allweddol ar siwrnai gwirfoddolwr.

Cofiwch, ni ddylai hyn chwaith gymryd lle'r cyfle i ddweud diolch yn rheolaidd, dim ond canllaw ydyw ynghylch y cerrig milltir sydd angen mwy o gydnabyddiaeth nag eraill efallai.



18.

Enwebwch eich gwirfoddolwyr am wobrau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Wrth gwrs, y nod yn y pen draw fyddai bod yr unigolyn rydych yn ei enwebu yn symud ymlaen i gamau perthnasol y gystadleuaeth ac yn ennill! Fodd bynnag, os na fydd hyn yn digwydd, rhwch wybod iddynt eich bod wedi eu cynnig ar gyfer y wobr. Efallai yr hoffech chi rannu darnau o'r ffurflen enwebu wedi'i llenwi gyda nhw hyd yn oed. Ceisiwch beidio â rhannu popeth oherwydd efallai y cewch gyfle i'w henwebu ar gyfer cynlluniau gwobrwyo eraill yn y dyfodol.

19.

Mae adroddiadau effaith yn ffordd wych o ddangos i wirfoddolwyr yr argraff maent wedi'i chael neu maent yn cyfrannu ati gyda'i gilydd. Nid oes raid i'r adroddiad fod yn rhy ffansi na chorfforaethol, mae symlrwydd yn allweddol yma. Gallai'r meysydd yr hoffech dynnu sylw atynt gynnwys y canlynol:

- Am faint o oriau mae chwaraewyr (plant neu oedolion) wedi bod yn actif yn y clwb?
- Faint o wirfoddolwyr sydd wedi dysgu sgil ychwanegol h.y. cymhwyster hyfforddi neu fynychu cwrs arweinyddiaeth?
- Faint o aelodau (gan gynnwys chwaraewyr, rhieni/gofalwyr, gwylwyr ac ati) sydd wedi chwarae pêl droed o ganlyniad i'r gwirfoddolwyr?

Peidiwch ag anghofio bod pawb o fewn eich clwb yn wirfoddolwyr, nid dim ond yr hyfforddwyr a'r rheolwyr ar y cae yn ystod dyddiau gêm.

20.

Drwy gydol y tymor, cofnodwch glipliau diolch gan chwaraewyr, rhieni a gwirfoddolwyr eraill gyda'r nod o'u troi'n fideo gwerthfawrogiad bychan y gellir ei rannu ar ddiwedd y tymor. Nid oes raid i'r fideo fod yn deilwng o Oscar a gellir gwneud y clipiau ar ffôn symudol (gofalwch sicrhau caniatâd ac edrych ar bolisi eich clwb ar storio ffilmiau a ffotograffau). Wedyn, drwy ddefnyddio plattfformau golygu meddalwedd am ddim, gallwch gyfuno'ch holl glipliau yn un fideo byr, gwych. Cyn i chi ddechrau arni, beth am ofyn i'ch aelodau oes gan unrhyw un sgiliau i greu fideos byr. Dydych chi byth yn gwybod pwy all helpu.

Wedi synnu nad oes angen unrhyw arian ar gyfer rhai o'r awgrymiadau uchod? Wel peidiwch â synnu! Does dim rhaid i gydnabyddiaeth fod ar ffurf gwobr neu gyfnewid anrheg, bydd diolch syml a chydnabod unigolyn am ei ymdrechion yn cael llawer mwy o effaith a bydd yn creu argraff gadarnhaol, ac am gyfnod hir, ar eich gwirfoddolwyr.

Adnoddau cefnogol

¹Arolwg Cylch Bywyd Gwirfoddoli 2019 – LOVS

